

A ydych chi'n un o 2,500 o gyflogwyr sector breifat sy'n cynnig cynllun pensiwn yn berthnasol i gyflog?



Adran Gwaith
a Phensiynau

Newidiadau Yswiriant Gwladol pwysig o 6 Ebrill 2016

Beth sydd wedi digwydd?

Mae Pensiwn y Wladwriaeth wedi newid ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016. Bydd y newid hwn yn helpu pobl ddeall yn glir beth fyddant yn cael o'u Pensiwn y Wladwriaeth fel eu bod yn gallu cynllunio ar gyfer eu hymddeoliad.

Os ydych yn noddi pensiwn gweithle'n berthnasol i gyflog, mae eich gweithwyr yn debygol o gael eu "heithrio" o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Os felly, byddwch chi a'ch gweithiwr wedi bod yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd is oherwydd eich bod yn cael ad-daliad Yswiriant Gwladol. Bydd tri chwarter o bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y ddwy ddegawd gyntaf o Bensiwn newydd y Wladwriaeth wedi cael eu heithrio ar ryw amser.

Mae Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi disodli yr hen Bensiwn sylfaenol ac ychwanegol y Wladwriaeth ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016. Daeth eithrio ac ad-daliad Yswiriant Gwladol i ben ar y dyddiad hynny.

Beth mae hyn yn ei olygu

O fis Ebrill 2016, byddwch chi a'ch gweithwyr yn talu'r gyfradd safonol o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn lle'r gyfradd wedi eithrio. Ar gyfer cyflogwyr, y gyfradd safonol cyflogwr ar hyn o bryd yw 13.8% o holl enillion uwchben y trothwy eilaidd ar gyfer holl weithwyr, ni fyddwch mwyach yn cael yr ad-daliad Yswiriant Gwladol o 3.4%. (ar gyfran o enillion).

Mae'r 1.4% ad-daliad Yswiriant Gwladol ar gyfer y gweithwyr hynny mewn cynlluniau eithrio wedi dod i ben hefyd. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr nawr yn talu'r gyfradd safonol o Yswiriant Gwladol yn lle cyfradd is. Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd wedi eithrio yn gallu derbyn Pensiwn y Wladwriaeth uwch nac o dan yr hen system o Bensiwn sylfaenol ac ychwanegol y Wladwriaeth.

Beth ddylwn i fod yn ei wneud nawr?

Os nad ydych wedi gwneud yn barod:

- Siaradwch gyda'ch ymgynghorwr pensiwn neu ymddiriedolwyr cynllun i gael gwybod sut effeithir ar eich cynllun ac i archwilio eich opsiynau.
- Gall cyflogwyr gymryd camau i wrthbwysu cynnydd Yswiriant Gwladol ond gall gymryd hyd at 12 mis i'w weithredu yn dibynnu ar faint eich cynllun.
- Cewch hyd i fwy o newidiadau eithrio a Phensiwn y Wladwriaeth yn: www.gov.uk/government/publications/new-state-pension-information-for-employers-and-trustees-with-open-contracted-out-defined-benefit-pension-schemes



Cyllid &
Thollau EM